



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Dull Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol erbyn 2035

Adroddiad Cryno ar gyfer Cyfnod Un
Fersiwn 1.1
Mehefin 2025

Crynodeb Gweithredol

Diben

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol a chymunedol (PCC) yng Nghymru erbyn 2035 drwy ddull iechyd y cyhoedd. Mae'n adeiladu ar gryfderau presennol ac yn anelu at fynd i'r afael â heriau systemig drwy ymgorffori atal, tegwch a chynaliadwyedd yn y ddarpariaeth gofal.

Heriau Allweddol

- **System Adweithiol:** Ar hyn o bryd, ffocws y GIG yw triniaeth dros atal.
- **Anghydbwysedd Adnoddau:** Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn mynd i ysbytai, nid PCC.
- **Pwysau ar y Gweithlu:** Prinder staff, gorweithio, a phroblemau recriwtio.
- **Bylchau Digidol:** Mynediad ac integreiddio anghyson o offer digidol.
- **Anghydraddoldebau iechyd:** Anghydraddoldebau parhaus o ran mynediad a chanlyniadau.

Egwyddorion Iechyd y Cyhoedd

- Atal afiechyd a hyrwyddo llesiant
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Diwallu anghenion y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol
- Sicrhau cynaliadwyedd (amgylcheddol, gweithlu, ariannol)
- Defnyddio data a thystiolaeth i lywio penderfyniadau

Elfennau Craidd ar gyfer Trawsnewid

1. **Parhad gofal**
 - Yn meithrin ymddiriedaeth, yn gwella canlyniadau, yn lleihau'r defnydd o ysbytai.
 - Angen cydbwysedd rhwng mynediad a pherthnasoedd parhaus â darparwyr.
2. **Systemau Digidol a Data Cysylltiedig**
 - Yn galluogi gofal cydlynol a chefnogaeth ragweithiol.
 - Rhaid mynd i'r afael ag allgáu digidol a sicrhau mynediad teg.
3. **Shifft Rhagofalus i Atal**
 - Buddsoddi'n gynnar i leihau costau hirdymor a gwella iechyd.
 - Yn gofyn am newid systemig mewn modelau ariannu a chyflenwi.

4. Gweithlu Cywir a Chymysgedd Sgiliau

- Timau amlddisgyblaethol, rhagnodi cymdeithasol, a rolau cynhwysol.
- Ffocws ar lesiant, cadw staff, a hyfforddiant.

5. Gofal yn Agosach at Gartref

- Mae gwasanaethau lleol, hygyrch yn lleihau pwysau ar ysbytai.
- Angen arweinyddiaeth, cyllid ac ymgysylltiad cymunedol.

6. Galluogi Modelau Ariannol

- Alinio cyllid ag angen a chefnogi arloesi.
- Symud o fuddsoddiad tymor byr i fuddsoddiad cynaliadwy a theg.

Camau Nesaf ar gyfer Cyfnod Dau

- **Gweithredu Cydweithredol:** Ymgysylltu â phartneriaid a chael gwared ar rwystrau.
- **Cynllunio'r Gweithlu:** Arloesi modelau staffio a chefnogi timau rheng flaen.
- **Profi Modelau Lleol:** Treialu a gwerthuso gofal yn y gymuned.
- **Integreiddio Tîm:** Cryfhau cydweithio traws-sector.
- **Diwygio Digidol:** Mynd i'r afael â phroblemau seilwaith a mynediad.

Cyflwyniad

Mae gofal sylfaenol a chymunedol yn canolbwyntio ar ddarparu gofal iechyd yn agos at ble mae pobl yn byw, trwy wasanaethau lleol fel practisiau meddygon teulu, fferyllfeydd a thimau iechyd cymunedol. Mae'n cynnwys gwasanaethau iechyd bob dydd sy'n helpu i atal salwch, rheoli cyflyrau hirdymor, a thrin problemau cyffredin. Y gwasanaethau hyn yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r rhan fwyaf o bobl sydd angen gofal ac maent yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo byw'n iach a chefnogi llesiant yn y gymuned. Eu nod yw darparu gofal hygyrch, sy'n canolbwyntio ar y claf, gan leihau'r angen am ymweliadau â'r ysbyty.

Mae [Model Gofal Sylfaenol Cymru](#) (PCMW) yn rhan bwysig o'r weledigaeth hirdymor i wella iechyd a gofal, fel y nodir yn [Cymru Iachach](#). Fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth hon wedi'i chyflawni'n llawn eto. Ar hyn o bryd, mae GIG Cymru yn aml yn ymateb i bwysau uniongyrchol, mewn gofal sylfaenol (megis gwasanaethau meddygon teulu) ac mewn ysbytai, yn hytrach na chanolbwyntio ar welliannau hirdymor.

Mae adborth gan dimau gofal iechyd yn dangos nad yw Model Gofal Sylfaenol Cymru (PCMW) yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y wlad. Drwy gryfhau ei weithrediad, bydd yn helpu i fynd i'r afael â heriau allweddol - megis poblogaeth sy'n heneiddio, technolegau sy'n dod i'r amlwg, a newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyllido. Mae gan Gymru gyfle gwirioneddol i adeiladu system gofal sylfaenol gryfach, tecach a mwy modern i bawb.

Beth yw Dull Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol erbyn 2035?

Y weledigaeth yw adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio'n dda yng Nghymru a chefnogi blaenoriaethau'r boblogaeth a'r llywodraeth drwy ddangos sut y gall ffocws cryfach ar iechyd y cyhoedd, o fewn gofal sylfaenol a chymunedol, helpu i greu gwlad decach, fwy gwyrdd ac iachach.

Beth yw egwyddorion iechyd y cyhoedd?

Yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer iechyd y cyhoedd yw:

- I atal afiechyd a chefnogi iechyd a llesiant
- I leihau anghydraddoldebau mewn iechyd a chanlyniadau
- I ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol a'r dyfodol
- Gwasanaeth cynaliadwy (amgylcheddol, adnoddau dynol a gwerth)
- Wedi'u llywio gan ddata a thystiolaeth

Deall yr Heriau

Mae Cymru yn wynebu heriau ariannol anodd ym maes iechyd a gofal. Gwariwyd bron i hanner cyllideb 2022/2023 ar iechyd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohono'n mynd i ysbytai, tra bod llai'n cael ei wario ar ofal sylfaenol a chymunedol, gan godi pryderon ynghylch a all y dull hwn bara.

Mae'r GIG wedi canolbwyntio'n bennaf ar drin problemau iechyd yn hytrach na'u hatal. Mae gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol dan bwysau oherwydd y galw cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio a phobl â phroblemau iechyd lluosog. Maent hefyd yn wynebu heriau eraill fel costau cynyddol, cyfyngiadau ar gyllid, technolegau newydd, prinder staff, anghenion sy'n newid, anghydraddoldebau, ac effeithiau newid hinsawdd ar iechyd.

Mae gwaith eisoes yn digwydd i wella gofal sylfaenol a chymunedol drwy ganolbwyntio mwy ar atal ac iechyd y cyhoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn agos at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac maent mewn sefyllfa gref i arwain y gwaith hwn. Ond mae adnoddau cyfyngedig a gofynion cystadleuol yn gwneud y newid hwn yn anoddach.

Yr hyn a wnaethom

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno adborth, barn arbenigwyr, a thystiolaeth i nodi themâu allweddol. Mae'n dangos sut y gall egwyddorion iechyd y cyhoedd lunio'r themâu hyn i wella gofal.

Yr elfennau craidd a nodwyd yw:

- Parhad gofal
- Systemau digidol a data cysylltiedig
- Shifft rhagofalus o ran buddsoddi adnoddau i gyflawni atal ar raddfa fawr
- Gofal a ddarperir yn nes at y cartref
- Y gweithlu/cymysgedd sgiliau cywir
- Galluogi modelau ariannol

Yr Elfennau Craidd

Parhad Gofal

Mae parhad gofal yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal iechyd cyson a chydlynus dros amser, yn aml gyda'r un darparwr, unigolyn/unigolion neu dîm, gan sicrhau gwell perthnasoedd a gofal gwell.

Mae gan barhad gofal mewn ymarfer cyffredinol lawer o fanteision i gleifion. Mae gweld yr un meddyg teulu yn rheolaidd yn meithrin ymddiriedaeth, yn lleihau pryder, ac yn gwneud i bobl deimlo'n fwy cyfforddus ynghylch siarad am eu hiechyd. Gall hyn arwain at ddiagnosis cynharach a gofal gwell. Mae perthynas gryfach â'u meddyg teulu hefyd yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o



ddilyn cynlluniau triniaeth a chael archwiliadau pwysig fel sgrinio canser neu frechiadau, gan helpu pobl i aros yn iachach yn y tymor hir.

Mae aros gyda'r un meddyg teulu dros amser yn gysylltiedig â phobl yn byw'n hirach. Mae'n helpu meddygon teulu i nodi risgiau iechyd yn gynnar, rhoi gwell gofal mewn argyfyngau, a rheoli cyflyrau hirdymor fel diabetes neu ddementia. Mae hefyd yn gwneud y swydd yn fwy gwerth chweil i feddygon teulu a gall leihau eu llwyth gwaith, gan fod angen llai o apwyntiadau ar gleifion sy'n cael gofal rheolaidd a pharhaus yn aml.

Mae parhad gofal yn helpu i leihau ymweliadau brys ac arosiadau yn yr ysbyty ar gyfer cyflyrau y gellir eu trin yn gynharach. Mae hyn yn arbed arian ac yn gwella tegwch, yn enwedig mewn ardaloedd tlotach. Er bod gwledydd eraill wedi cynnal parhad cryf o ran gofal, mae wedi dirywio yn y DU - ond gyda'r camau cywir, gall Cymru droi hyn o gwmpas.

Mae cael apwyntiadau meddyg teulu cyflym yn bwysig, ond mae gweld yr un meddyg / nyrs bob amser yn dod â manteision mawr hefyd. Gall ffocysu ar gyflymder yn unig ei gwneud hi'n anoddach cadw'r parhad hwnnw. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i wella hyn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yng Nghymru.

Systemau digidol a data cysylltiedig

Mae systemau digidol a data cysylltiedig yn offer sy'n helpu gwasanaethau iechyd a gofal i rannu gwybodaeth yn ddiogel a gweithio'n well gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cofnodion iechyd electronig, apiau, a rhannu data yn ddiogel rhwng gwasanaethau. Mae'r systemau hyn yn ei gwneud hi'n haws i weithwyr proffesiynol gydlyn gofal, ac i bobl gael mynediad at eu gwybodaeth a'u cymorth iechyd pan fyddant ei hangen.

Gall technoleg ddigidol wella gofal iechyd drwy wneud gwasanaethau'n fwy cydgysylltiedig a phersonol. Ond nid yw pawb yn elwa'n gyfartal. Mae pobl iau a chyfoethocach yn aml yn addasu'n haws, tra bod eraill yn wynebu rhwystrau fel allgáu digidol, pryderon ynghylch preifatrwydd, neu ddiffyg cefnogaeth. Er mwyn bod yn deg, rhaid i systemau fod yn gynhwysol a chynnig opsiynau digidol a rhai nad ydynt yn ddigidol

Gall data iechyd helpu i wella cynllunio, gwaith tîm a chymorth gynnar. Mae data cysylltiedig yn golygu cysylltu gwybodaeth o wahanol leoedd yn ddiogel - megis cofnodion meddyg teulu, ymweliadau ag ysbytai, a chanlyniadau profion - i roi darlun mwy cyflawn o iechyd person. Mae hyn yn helpu i nodi anghenion iechyd yn gynt ac yn gwneud gofal yn fwy rhagweithiol. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael ag oedi wrth gael mynediad, pryderon ynghylch ymddiriedaeth, a phroblemau system drwy reolau clir a chynllunio gofalus.

Gall gofal o bell ac offer digidol fel Ap GIG Cymru ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws cael cymorth, ond mae'n rhaid i ofal fod yn deg ac o ansawdd uchel o hyd. Mae'r offer hyn yn gweithio orau pan fydd staff wedi'u hyfforddi'n dda, a systemau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion go iawn. Dylai unrhyw arbedion a wneir drwy dechnoleg helpu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol.



Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cael ei ddefnyddio fwyfwy mewn gofal iechyd. Gall helpu i ganfod problemau iechyd yn gynnar, hwyluso tasgau gweinyddol, a ffocysu gofal ar y bobl sydd fwyaf mewn perygl. Ond mae hefyd yn dod â risgiau, fel canlyniadau rhagfarnlyd neu gostau uchel, felly rhaid ei ddefnyddio'n ofalus a rhaid rhoi gwiriadau clir ar waith. Mae yna hefyd ôl troed carbon AI uchel i'w ystyried.

Gall technoleg helpu i wella gofal ac atal, ond mae llwyddiant yn dibynnu ar waith tîm, ymddiriedaeth, a gwasanaethau'n cael eu hadeiladu o amgylch yr hyn sydd ei angen ar bobl - nid dim ond y dechnoleg ei hun. Gall dilyn [Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru](#) sicrhau gwelliannau cyson, effeithlon, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Dim ond pan fo tystiolaeth gref ei bod yn gweithio y dylid defnyddio technoleg newydd. Mae hefyd yn bwysig parhau i wirio ei fod yn dod â'r gwelliannau disgwylledig, ac i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol fel gwaethygu anghydraddoldebau iechyd.

Shifft rhagofalus o ran buddsoddi adnoddau i gyflawni atal ar raddfa fawr.

Mae shifftio buddsoddiad yn rhagofalus i atal ar raddfa fawr yn golygu ailgyfeirio adnoddau'n gynharach i ganolbwyntio ar fesurau ataliol a lleihau costau gofal iechyd yn y dyfodol.

Mae cefnogaeth gref i newid gofal yn nes at y cartref, lleihau ymweliadau â'r ysbyty, a chanolbwyntio ar atal. Mae'r dull hwn yn lleddfu'r pwysau ar ysbytai, yn costio llai, ac yn cryfhau systemau iechyd i fod yn fwy parod ar gyfer heriau'r dyfodol. Mae'r newid hwn yn golygu gwneud mwy i atal pobl rhag mynd yn sâl a chynnig mwy o ofal mewn mannau lleol, fel practisiau meddygon teulu neu glinigau cymunedol. Er bod y syniad hwn yn cael ei gefnogi'n eang ac wedi'i gynnwys mewn polisiau yng Nghymru, mae ei wireddu'n ymarferol yn dal yn anodd - yn enwedig o ran symud arian ac adnoddau i'r mannau lle maen nhw'n cael yr effaith fwyaf ar gadw pobl yn iach.

Mae rhanddeiliaid wedi pwysleisio'r angen am system ariannu i symud adnoddau o ysbytai i ofal sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, mae hyn wedi profi'n anodd, gyda phwysau cyllid a staffio yn creu argyfwng cynyddol wrth ddarparu gofal ar y lefel hon.

Gellir atal llawer o gyflyrau iechyd hirdymor fel clefyd y galon, iechyd cyhyrsgerbydol ac iechyd meddwl os eir i'r afael â risgiau'n gynnar. Mae cymryd camau gweithredu'n gynt yn gwella iechyd pobl, yn lleihau'r angen am ofal brys, ac yn arbed arian. Er bod atal yn cael ei gefnogi mewn polisi, mae'n dal yn anodd ei roi ar waith oherwydd anghenion newidiol y boblogaeth a system sy'n aml yn canolbwyntio mwy ar drin salwch na'i atal yn y lle cyntaf.

Mae angen ymgorffori atal mewn gofal bob dydd a phob polisi iechyd. Mae'n ffordd gost-effeithiol o helpu pobl i aros yn iach ac osgoi salwch. Mae rhaglenni fel sgrinio a brechiadau yn gweithio'n dda oherwydd eu bod yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig, ar draws y system.

[Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Atal](#): Mae adroddiad fframwaith i ymgorffori atal yn y system iechyd a gofal yng Nghymru yn amlinellu pedwar cam: adeiladu momentwm, diffinio nodau mesuradwy, dangos tystiolaeth o effaith, a gwneud atal yn ganolog i ofal iechyd. Mae'n troi polisi yn weithredu, gan gefnogi gofal gwell a datrysiadau ariannu yng Nghymru.

Y Gweithlu a'r Cymysgedd Sgiliau Cywir

Mae "[Cymru Iachach: Strategaeth ein Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)" yn gynllun 10 mlynedd i adeiladu gweithlu medrus a gwerthfawr i Gymru. Mae'n canolbwyntio ar lesiant, cynhwysiant, cadw staff, a'r iaith Gymraeg, gan fynd i'r afael â heriau fel cyllid a COVID-19. Mae Cyfnod Dau (2024–2027) yn cyd-fynd â chynlluniau allweddol i fynd i'r afael â phroblemau'r gweithlu a gwella cynaliadwyedd. Mae Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 2024 yn nodi camau gweithredu i gefnogi hyfforddiant, arweinyddiaeth, gwaith tîm a thechnoleg ar gyfer gweithlu iach a brwdfrydig.

Mae'r GIG yn wynebu prinder staff mawr, yn enwedig mewn ymarfer cyffredinol. Dechreuodd y problemau hyn cyn COVID-19 ond maent wedi gwaethygu gyda'r galw cynyddol. Mae llawer o staff yn gadael oherwydd gorweithio, llwythi gwaith uchel, a chyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu eu gyrfaedd. Mae hefyd yn anodd recriwtio staff newydd, yn enwedig o dramor, oherwydd heriau o ran fisâu a hyfforddiant.

Ni all rhai meddygon teulu sydd newydd gymhwyso ddod o hyd i swyddi, sy'n golygu eu bod yn gadael y GIG neu'n mynd dramor. Mae hyn yn effeithio ar ofal cleifion, gan arwain at arosiadau hirach, ansawdd gwasanaeth is, a chanlyniadau gwaeth - yn enwedig mewn ardaloedd tlotach. Mae cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol eraill mewn rolau newydd wedi helpu i wella mynediad, ond mae angen rhagor o dystiolaeth i asesu costau, ansawdd ac effaith gyffredinol y dull hwn.

Mae angen cynllunio hirdymor, cyllid priodol, a chefnogaeth ar gyfer hyfforddiant yn y meysydd sydd ei angen fwyaf i ddatrys prinder staff. Bydd gweithio'n well fel tîm ar draws gwahanol broffesiynau a chael digon o staff hyfforddedig i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn arwain at ofal o ansawdd gwell a ddarperir yn gyflymach.

Mae gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol cryf yn dibynnu ar wahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cydweithio ac yn sicrhau bod cleifion yn gweld y person cywir ar gyfer eu hanghenion. Er mwyn canolbwyntio mwy ar atal, mae angen i ni hefyd gefnogi ystod ehangach o staff, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt gymwysterau clinigol a'r rhai sy'n gweithio mewn rolau sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau lleol a chefnogaeth yn eu cymuned; gelwir hyn yn 'presgripsiynu cymdeithasol'.

Mae enghreifftiau o ddeintyddiaeth a fferyllfa'r GIG yn dangos bod rhoi'r hyfforddiant cywir i staff yn helpu pawb i gyfrannu'n fwy effeithiol, gan wneud defnydd gwell o sgiliau ar draws y tîm heb gynyddu'r pwysau ar eraill. Mae [Rhaflen Atal Diabetes Cymru Gyfan](#) yn enghraifft dda o sut y gellir ymgorffori atal mewn gofal trwy ddefnyddio'r tîm cyfan, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth gref a gwiriadau rheolaidd i weld beth sy'n gweithio. Pan fydd gweithwyr proffesiynol yn deall rolau ei gilydd ac yn cydweithio, mae gofal yn dod yn fwy cydgyssylltiedig ac effeithiol.

Mae angen i lesiant staff fod yn flaenoriaeth uchel er mwyn lleddfu'r pwysau presennol. Dylai rolau newydd gefnogi, nid disodli, rhai presennol. Pan fydd gwasanaethau'n cydweithio mewn ffordd integredig, gall gweithwyr proffesiynol ganolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n ei wneud orau, gan leihau



oedi a gwaith ailadroddus. Mae dull tîm cryf yn golygu bod cleifion yn cael eu gweld gan y person cywir ar yr amser cywir, gan wneud gofal yn gyflymach ac yn fwy effeithiol.

Mae yna lawer o ffyrdd o ddarparu'r gofal lleol, cydgysylltiedig hwn. Yng Nghymru, dylid dylunio unrhyw fodelau newydd o amgylch yr hyn sydd ei angen ar gymunedau lleol, a'u gwirio'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn gwella canlyniadau i gleifion a staff, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Gofal a ddarperir yn nes at y cartref

Mae gofal yn nes at y cartref yn cyfeirio at symud gwasanaethau gofal iechyd o ysbytai i leoliadau lleol neu gymunedol. Mae'r dull hwn yn gwneud gofal yn fwy hygyrch a chyfleus, yn helpu pobl i aros yn iachach, yn lleihau'r angen am ymweliadau ysbyty, ac yn cefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Er mwyn iddo weithio, rhaid mynd i'r afael â heriau staffio a systemau, gan sicrhau bod gofal yn parhau i fod yn gydlynol ac yn canolbwyntio ar y claf. Mae cefnogi atal a gwasanaethau lleol yn allweddol i leihau'r pwysau ar ysbytai.

Er mwyn cefnogi gofal yn nes at y cartref, gall offer digidol fel Ap GIG Cymru helpu a chefnogi gofal rhagweithiol. Dylai gofal cydgysylltiedig a datrysiadau lleol ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar gymunedau, gan helpu i leddfu'r pwysau oddi ar ysbytai.

Er mwyn i ofal sy'n nes at y cartref weithio yn y tymor hir, mae angen arweinyddiaeth gref, y cyllid cywir, a chefnogaeth i staff. Dylai adnoddau gyd-fynd ag anghenion cymunedau lleol a gwobrwyo gofal sy'n seiliedig ar atal. Bydd gweithio gyda'n gilydd, cynllunio gyda chymunedau, a chadw nod hirdymor clir yn helpu i adeiladu system iechyd a gofal decach a mwy effeithiol.

Mae uno gwasanaethau iechyd a gofal yn helpu pobl i gael gwell cefnogaeth ac yn lleihau'r pwysau ar ysbytai. Mae'n gweithio orau pan fydd staff o wahanol wasanaethau gan gynnwys y trydydd sector, yn rhannu gwybodaeth, yn cydweithio, ac yn canolbwyntio ar anghenion lleol.

Yn y dyfodol, mae pobl eisiau mynediad cliriach at ofal lleol, mwy o apwyntiadau grŵp i gael cefnogaeth, a gwasanaethau sy'n eu trin fel person cyfan - nid dim ond eu salwch. Bydd arweinyddiaeth gref, cynllunio da, a chyllid teg yn allweddol i wireddu hyn.

Galluogi Modelau Ariannol

Mae galluogi modelau ariannol yn ffyrdd o ariannu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n cefnogi gwaith tîm, syniadau newydd a gwelliannau hirdymor.

Mae buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd a gofal lleol yn helpu i leihau'r galw am ysbytai ac yn gwella iechyd, yn enwedig pan fydd gofal yn canolbwyntio ar atal. Ond nid yw'r cyllid presennol bob amser yn cefnogi ardaloedd sydd ei angen fwyaf, yn enwedig y rhai â lefelau uwch o amddifadedd. Mae cyllid tymor byr a systemau anhyblyg hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach i wasanaethau gydweithio.

I drwsio hyn, dylai cyllid gyd-fynd ag anghenion pob cymuned, gan helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Rhaid i fodolau ariannol y dyfodol gefnogi cyflog teg, cynllunio hirdymor, a gofal o ansawdd uchel ar draws pob gwasanaeth. Rhaid rheoli dulliau newydd - fel cyd-gyllido - yn ofalus hefyd er mwyn osgoi problemau anfwriadol.

Camau nesaf ar gyfer dechrau Cyfnod dau

Gwneud i Newid Ddigwydd Gyda'n Gilydd

Mae gan Gymru bolisiau iechyd cryf, ond mae angen i ni ganolbwyntio nawr ar droi syniadau'n weithredu. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda phartneriaid a chael gwared ar rwystrau, gyda chefnogaeth ac arweinyddiaeth gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Cynllunio'r Gweithlu Cywir

Mae archwilio ffyrdd newydd o weithio yn hanfodol i sicrhau'r staffio cywir ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwrandao ar dimau rheng flaen a defnyddio cefnogaeth arbenigol gan sefydliadau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dod â Gofal yn Nes at y Cartref

Mae symud gofal i gymunedau yn nod allweddol, ond mae angen i ni brofi beth sy'n gweithio mewn gwirionedd. Mae hynny'n golygu cynnwys uwch arweinwyr a staff sy'n darparu gofal bob dydd.

Gweithio fel Un Tîm

Er bod meddygon teulu yn hanfodol, mae gweithwyr proffesiynol eraill fel nyrsys, fferyllwyr, deintyddion, staff gofal cymdeithasol a staff y trydydd sector hefyd yn chwarae rhan fawr. Mae angen dealltwriaeth ddyfnach o sut y gall y tîm cyfan gydweithio'n effeithiol, a goresgyn bylchau mewn hyfforddiant, cyllid a chyfathrebu.

Trwsio Rhwystrau Digidol a Data

Mae systemau digidol da yn helpu i gydlyn gofal, ond mae Cymru yn dal i wynebu heriau yn y maes hwn. Mae angen gweithredu ar frys ar y rhain er mwyn osgoi arafu cynnydd tuag at ofal gwell a mwy rhagweithiol.

Erbyn 2035, drwy ymdrechion cydweithredol ac ymrwymiad i egwyddorion iechyd y cyhoedd, byddwn yn symud yn agosach at ein gweledigaeth o wasanaethau lleol, hygyrch a chyfartal a ddarperir gan staff hapus a gwerthfawr.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales